# P-04-550 Pwerau Cynllunio

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio i sut y gellid defnyddio pwerau cynllunio datganoledig i wneud defnydd buddiol o safleoedd gwag neu segur.

Rydym yn poeni'n arbennig y gallai safleoedd gwag neu segur fel yr hen Kwik Save yn Llaneirwg, Caerdydd fod yn falltod ar gymunedau a denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Hoffem i'r ymchwiliad ystyried a yw'r pwerau presennol i gymryd camau yn erbyn perchenogion tir gwag neu segur yn ddigonol, gan gynnwys y potensial i orfodi perchenogion i weithredu ar eu traul eu hunain i gael gwared ar safleoedd hyll neu strwythurau segur.

Rydym yn galw am gynnal ymchwiliad cyn i'r Cynulliad basio'r Bil Cynllunio arfaethedig.

**Prif ddeisebydd:** St Mellons Action Group

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 13 Mai 2014

**Nifer y llofnodion**: 41